

Cofrestrfa  
Tir



Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

Paratowyd o dan  
Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cynllun Iaith Gymraeg

Mawrth 2010





# Cynnwys

Adran	Tudalen
1 Cyflwyniad	4
2 Cefndir	4
3 Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth	5
4 Ymdrin â siaradwyr Cymraeg	6
5 Ein hwyneb cyhoeddus	7
6 Gweithredu'r cynllun	9
Enwau a rhifau cyswllt	11
Atodiad A	12
Prif dargedau ar gyfer cyflawni'r cynllun	

Paratowyd y cynllun hwn yn unol ag Adran 21(3) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cymeradwywyd argraffiadau dilyniannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y dyddiadau a nodir isod:

Argraffiad cyntaf – Mawrth 20 1998  
Ail argraffiad – 29 Ionawr 2002  
Trydydd argraffiad – 4 Chwefror 2005  
Yr argraffiad hwn – 25 Mawrth 2010

# 1 Cyflwyniad

- 1.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.
- 1.2 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn (y cynllun) yn gosod allan y gofynion angenrheidiol i alluogi'r Gofrestrfa Tir i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- 1.3 Mae'r cynllun hwn yn ymdrin â'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn y cynllun hwn, ystyr cyhoedd yw unigolion, pobl gyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o dan ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn swyddogaeth sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.
- 1.4 Paratowyd y cynllun hwn yn unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 25 Mawrth 2010 ac mae'n disodli'n cynlluniau blaenorol dyddiedig 20 Mawrth 1998, 29 Ionawr 2002 a 4 Chwefror 2005.
- 1.5 Sefydlwyd Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg o fewn y Gofrestrfa Tir yn dilyn cyflawniad Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ei ddiben yw cyfeirio, rheoli a gweithredu polisi'r Gofrestrfa Tir o ran yr iaith Gymraeg. Cadeirydd y Grŵp yw Rheolwr Ardal Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru sy'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd y Gofrestrfa Tir.
- 1.6 Os bydd gan aelodau o'r cyhoedd unrhyw ymholiadau neu gwynion am weithrediad y cynllun, dylent gysylltu â Chydlynnydd y Gymraeg neu un o'r staff uwch eraill a restrir yn yr Atodiad.

# 2 Cefndir

- 2.1 Sefydlwyd y Gofrestrfa Tir, adran y Llywodraeth ar wahân er 1862, yn asiantaeth weithredol yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor ym mis Gorffennaf 1990 ac yn gronfa fasnachu ym 1993. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â chofrestru teitl tir yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn gyfrifol am gofrestru Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr.

- 2.2 Darperir gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir drwy rwydwaith o swyddfeydd lleol. Lleolir Prif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir yn Llundain. Mae gwasanaethau technoleg gwybodaeth wedi eu lleoli yn Plymouth. Caiff Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol eu gweinyddu o Plymouth. Mae gan gwsmeriaid busnes fynediad electronig i ystod o wasanaethau cofrestru ar-lein. Mae gan y cyhoedd fynediad electronig i ystod mwy cyfyng o wasanaethau cofrestru.
- 2.3 Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru, sydd wedi ei lleoli yn Llansamlet, Abertawe, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cofrestru tir yng Nghymru.
- 2.4 Mae'r gwasanaethau y mae Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru'n eu darparu i'r cyhoedd, fel rheol trwy eu cynrychiolwyr proffesiynol, yn cynnwys gwasanaethau cyn-cwblhau, ceisiadau i gofrestru tir am y tro cyntaf, ceisiadau i gofrestru trafodion yn ymwneud â thir cofrestredig ac ymholiadau cyffredinol. Gall anghydfodau ynglŷn â thir cofrestredig gael eu datrys yn weinyddol trwy gytundeb neu trwy gyfeirio at Ddyfarnwr Cofrestrfa Tir EM a all wrando ar y mater ei hunan neu gyfeirio un o'r partïon i gychwyn achos llys.

### 3 Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth

#### **Polisiâu, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau**

- 3.1 Bydd ein polisiâu, mentrau a gwasanaethau'n gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn ystyried y Gymraeg a byddant, lle bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd.
- 3.2 Pan fo'n bosibl, bydd ein dogfennau ymgynghorol yn trafod y berthynas rhwng y Gymraeg a'r polisiâu, mentrau a gwasanaethau sydd o dan sylw.
- 3.3 Pan fyddwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.
- 3.4 Ein harfer fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg.
- 3.5 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti'n gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth wneud hyn, fe fyddwn yn sicrhau bod trydydd partiön yn darparu'r gwasanaeth hwnnw yn unol â'r cynllun hwn.
- 3.6 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r un ansawdd a chânt eu darparu yn ôl yr un amserlen.

## 4 Ymdrin â siaradwyr Cymraeg

### 4.1 Gohebiaeth ysgrifenedig

- 4.1.1 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamserau targed ar gyfer ateb yr un â'r amserau targed ar gyfer ateb i lythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg.
- 4.1.2 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn ddwyieithog, byddwn yn cadarnhau eu dewis iaith ac yn ateb yn yr iaith honno.
- 4.1.3 Pan fyddwn yn dechrau gohebu gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny'n Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.
- 4.1.4 Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth ebost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.
- 4.1.5 Mae cylchlythyron a anfonir at y cyhoedd ac ymarferyddion yng Nghymru ar ffurf ddwyieithog.
- 4.1.6 Mae papur pennawd y Gofrestrfa Tir yn nodi ei bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

### 4.2 Gohebu dros y ffôn

- 4.2.1 Byddwn yn sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.
- 4.2.2 Caiff galwadau yn ymwneud â cheisiadau sy'n effeithio ar eiddo yng Nghymru eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog.
- 4.2.3 Mae'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid a leolir yng Nghofrestrfa Tir Swyddfa Cymru'n rhan o ganolfan gyswllt rithwir fwy sy'n delio gydag ymholiadau cyffredinol ar draws Cymru a Lloegr. Ceir llinell Gymraeg benodedig i ddelio â chwsmeriaid sydd am gynnal eu hymholiadau yn Gymraeg, a chaiff y gwasanaeth hwn ei hysbysebu.
- 4.2.4 Mae'r Ganolfan Gwasanaeth Ffôn a leolir yng Nghofrestrfa Tir Swyddfa Cymru'n cynnig gwasanaeth dwyieithog ac yn arbenigo ar ynganu a sillafu enwau lleoedd Cymraeg.

### 4.3 Cyfarfodydd cyhoeddus

- 4.3.1 Nid yw'r Gofrestrfa Tir yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus.
- 4.3.2 Mae'r Gofrestrfa Tir yn trefnu digwyddiadau corfforaethol ac yn darparu seminarau technegol ar gyfer cwsmeriaid sy'n ymarferyddion, a rhoddir cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau Cymraeg yn ystod y digwyddiadau hyn. Manteisir ar y cyfle hefyd i ofyn i'r gwrandawyr a ydynt yn defnyddio'r gwasanaethau ac a oes ganddynt sylwadau amdanynt. Bydd o leiaf un aelod o staff y Gofrestrfa Tir sy'n arwain y seminar yn medru'r Gymraeg.

#### **4.4 Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru**

4.4.1 Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd preifat â'r cyhoedd, byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a byddwn yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

#### **4.5 Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru**

4.5.1 Mae siaradwyr Cymraeg ar gael yn y Ganolfan Gwybodaeth Cwsmeriaid i ddelio ag aelodau o'r cyhoedd sydd am gynnal eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.5.2 Dangosir arwyddion yn amlwg yn y Ganolfan Gwybodaeth Cwsmeriaid i nodi bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac mae'r holl arwyddion mewn manau cyhoeddus yn ddwyieithog.

## **5 Ein hwyneb cyhoeddus**

### **5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion**

5.1 Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddir yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol) eu cynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd a bydd y ddwy ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

5.2 Bydd hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

5.3 Pan fydd angen staff i ofalu am stondinau ac arddangosfeydd, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn bresennol, fel y bo'n briodol.

### **5.2 Cyhoeddiadau**

5.2.1 Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyhoeddi pob deunydd esboniadol ac ymarfer ar gyfer y cyhoedd ac ymarferyddion yng Nghymru yn ddwyieithog gan ffafrio fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Os cyhoeddir fersiynau ar wahân, byddant ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch ar bapur neu ar ffurf electronig.

5.2.2 Mae ffurflenni a bennwyd gan ddeddfwriaeth eilaidd ar gael fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

5.2.3 Lle bydd y Gofrestrfa Tir yn gwerthu unrhyw gyhoeddiad, bydd pris dogfen ddwyieithog yr un â phris cyhoeddiad un iaith.

### **5.3 Gwefannau**

- 5.3.1 Bydd ein gwefannau'n cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fyddwn yn cynnwys cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu cynnwys ar yr un pryd, os ydynt ar gael.
- 5.3.2 Lle bo'n briodol, byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.
- 5.3.3 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglŷn â dylunio gwefannau.

### **5.4 Y gofrestr**

- 5.4.1 Caiff cofrestr tir yng Nghymru eu hargraffu ar dempled cofrestr dwyieithog.
- 5.4.2 Gwneir cofnodion ar y gofrestr yn iaith y ddogfen wreiddiol.

### **5.5 Hunaniaeth gorfforaethol**

- 5.5.1 Mae'r Gofrestrfa Tir yn mabwysiadu ac yn cyflwyno delwedd gorfforaethol ddwyieithog lawn yng Nghymru. Mae enw'r Gofrestrfa Tir, ei chyfeiriad a'i delwedd weledol yn gydradd o ran maint ac ansawdd yn Gymraeg a Saesneg ac maent yn ymddangos ar benawdau llythyron, papurau ffacs, slipiau cyfarch, cardiau busnes, bathodynnau adnabod, cyhoeddiadau, cerbydau a nwyddau a deunyddiau eraill.
- 5.5.2 Mae arddangosfeydd a ddefnyddir mewn digwyddiadau corfforaethol a seminarau ymarferyddion yng Nghymru yn ddwyieithog.

### **5.6 Arwyddion**

- 5.6.1 Mae'r holl arwyddion yn y manau lle ceir mynediad i'r cyhoedd yng Nghofrestrfa Tir Swyddfa Cymru'n ddwyieithog. Mae'r arwyddion yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

### **5.7 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff**

- 5.7.1 Mae hysbysebion a hysbysiadau cyffredinol mewn papurau newydd neu gyfryngau eraill yng Nghymru'n ddwyieithog ac yn gyfartal o ran ffurf, maint ac amlygrwydd.
- 5.7.2 Caiff hysbysebion am swyddi yng Nghofrestrfa Tir Swyddfa Cymru eu cyhoeddi'n ddwyieithog mewn papurau newydd neu gyfryngau eraill yng Nghymru. Mae'r hysbysebion yn gydradd o ran ffurf, maint ac amlygrwydd.

### **5.8 Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau**

- 5.8.1 Mae datganiadau i'r wasg yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr neu Gymru yn unig yn cael eu hanfon i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog.

5.8.2 Byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

## 6 Gweithredu'r cynllun

### 6.1 Staffio

6.1.1 Mae gan Gofrestrfa Tir Swyddfa Cymru ddigon o staff Cymraeg eu hiaith cymwys i ddarparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg. Rydym yn adolygu'r nifer o staff sy'n angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth yn gyson, er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael. Mae geiriaduron a chyfeirlyfrau Cymraeg eraill ar gael yn y llyfrgell.

6.1.2 Byddwn yn cadw cofnod o'r nifer o staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

### 6.2 Recriwtio

6.2.1 Pan fyddwn yn recriwtio staff byddwn yn dilyn y wybodaeth a gesglir wrth ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir o dan Staffio uchod.

6.2.2 Lle bernir bod rhuglder yn y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, bydd hyn yn cael ei ddatgan yng nghymhwyseddau a hysbysebion swydd.

6.2.3 Darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais electronig yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob swydd yn Swyddfa Cymru. Darperir pecynnau papur yn Gymraeg a Saesneg ar gais.

6.2.4 Mae cyrsiau sefydlu ar gyfer staff newydd yng Nghofrestrfa Tir Swyddfa Cymru'n cyfeirio'n benodol at ofynion y cynllun.

### 6.3 Hyfforddiant iaith

6.3.1 Mae Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru'n datblygu medrau ei staff presennol sy'n siarad Cymraeg ac yn annog staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith. Mae Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru'n ariannu pob cwrs hyfforddiant Cymraeg allanol a fynychir gan aelodau o staff yn unol â pholisi Addysg Bellach y Gofrestrfa Tir.

6.3.2 Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bo'n ymarferol.

### 6.4 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

6.4.1 Byddwn yn darparu ar gyfer yr angen i gynnig gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg ac yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

6.4.2 Wrth i ni ddatblygu a phrynu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **6.5 Gweithio mewn partneriaeth**

- 6.5.1 Pan fyddwn yn gweithredu fel arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.
- 6.5.2 Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn ni'n cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio â'r cynllun hwn.
- 6.5.3 Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r cynllun hwn.

## **6.6 Trefniadau mewnol**

- 6.6.1 Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Gofrestrfa Tir. Bydd gweithredu'n unol â'r cynllun yn fater o gydymffurfiaeth.
- 6.6.2 Mae Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn gyfrifol am gyfeirio, rheoli, gweithredu ac arolygu polisi'r Gofrestrfa Tir ynglŷn â'r iaith Gymraeg.
- 6.6.3 Mae Cydlynnydd y Gymraeg yn gyfrifol am weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd ac mae'n adrodd i Gadeirydd y Grŵp Llywio, sydd, yn ei dro, yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli yng Nghofrestrfa Tir Swyddfa Cymru a Bwrdd y Gofrestrfa Tir.
- 6.6.4 Mae'r cynllun yn eitem trafod yn holl gyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru.
- 6.6.5 Rydym wedi paratoi cynllun gweithredu manwl y cytunwyd arno gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae hwn yn nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym. Gellir ei weld yn Atodiad A.
- 6.6.6 Cyhoeddir y cynllun i'n staff, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn man amlwg.
- 6.6.7 Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn i'n staff yn gyson ac yn esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.
- 6.6.8 Byddwn yn ymgymryd ag unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw wedi ei ddisgrifio'n benodol yn y cynllun hwn, mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn y cynllun.

## **6.7 Monitro**

- 6.7.1 Byddwn yn monitro'r cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn targedau a nodir yn y cynllun gweithredu a ddaw gyda'r cynllun hwn. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol.

6.7.2 Mae adroddiad blynyddol a chyfrifon y Gofrestrfa Tir yn cynnwys diweddariad blynyddol ar y cynllun a'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir.

6.7.3 Ein targed yw sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â nod ac amcanion y cynllun hwn. Byddwn yn darparu adroddiad ar weithrediad y cynllun yn dilyn cais gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **6.8 Adolygu ac addasu'r cynllun**

6.8.1 Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'i roi ar waith.

6.8.2 Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau iddo oherwydd newidiadau i swyddogaethau neu amgylchiadau, neu am unrhyw reswm arall.

6.8.3 Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

# Enwau a rhifau cyswllt

## **Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru**

Tŷ Cwm Tawe, Ffordd y Ffenics, Llansamlet  
Abertawe SA7 9FQ  
Ffôn 01792 355000  
Ffacs 01792 355055

## **Cofrestrydd Tir**

Terry Lewis  
01792 355001  
Ebost [terry.lewis@landregistry.gsi.gov.uk](mailto:terry.lewis@landregistry.gsi.gov.uk)

## **Rheolwr Ardal**

Mike Harris  
01792 355002  
Ebost [mike.harris@landregistry.gsi.gov.uk](mailto:mike.harris@landregistry.gsi.gov.uk)

## **Cydlynnydd y Gymraeg**

Eleri Sparnon Jones  
01792 355169  
Ebost [eleri.jones@landregistry.gsi.gov.uk](mailto:eleri.jones@landregistry.gsi.gov.uk)

# Atodiad A

## Prif dargedau ar gyfer cyflawni'r cynllun

Targed	Dyddiad cwblhau
<b>1 Cyhoeddusrwydd o ran y Cynllun Iaith</b>  Hysbysebu'r cynllun diwygiedig ar y wefan a thrwy ddulliau perthnasol eraill.	<b>O fewn deufis o gymeradwyo'r cynllun</b>
<b>2 Geirfa o Derau Cyfreithiol</b>  Fersiwn electronig ddiwygiedig i ymddangos ar y wefan a'i hysbysebu ar yr hafan a thrwy <i>Landnet</i> .	<b>Mehefin 2010</b>
<b>3 Llinell ffôn Gymraeg</b>  Hysbysebu llinell ffôn Gymraeg newydd y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid.	<b>O fewn deufis o gymeradwyo'r cynllun</b>
<b>4 Ffurflenni cais Cymraeg</b>  Ffurflenni cais a phecynnau gwybodaeth Cymraeg i fod ar gael ar gyfer pob swydd yn Swyddfa Cymru.	<b>O fewn deufis o gymeradwyo'r cynllun</b>
<b>5 Cynghori/atgoffa staff</b>  Darparu cyngor cyson i staff ar sut i ymdrin â gohebiaeth Gymraeg/galwadau ffôn/ceisiadau am gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb.	<b>O fewn deufis o gymeradwyo'r cynllun ac yn rheolaidd wedi hynny</b>
<b>6 Ymgyrchoedd hysbysebu</b>  Rhoi cyfarwyddyd i staff ar ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd/hysbysebu yng Nghymru.	<b>O fewn deufis o gymeradwyo'r cynllun ac yn rheolaidd wedi hynny</b>
<b>7 Asesu gweithleoedd</b>  Asesu gweithleoedd yn gyson i sicrhau bod digon o staff Cymraeg eu hiaith ar gael i gynnig y gwasanaethau.	<b>O fewn deufis o gymeradwyo'r cynllun a'i adolygu pan gynigir gwasanaethau newydd</b>
<b>8 Gwefan</b>  Cymryd camau i gynyddu cynnwys Cymraeg y wefan.	<b>Asesiad o'r ddarpariaeth bresennol ac amserlen ar gyfer y gwaith angenrheidiol erbyn Gorffennaf 2010</b>

**9 Adrodd i Fwrdd yr Iaith  
Gymraeg a Bwrdd y  
Gofrestrfa Tir**

**Mehfin 2010 ac yn  
flynyddol wedi hynny**

Darparu adroddiad blynyddol ar weithrediad y cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Bwrdd y Gofrestrfa Tir.

**10 Gwelliannau system**

**Adroddiad ar ganlyniadau  
erbyn Gorffennaf 2010**

Trafodaethau eisoes wedi dechrau i gytuno ar amserlen gyda Systemau Gwybodaeth i gychwyn gweithrediad y canlynol, sy'n amodol ar allu systemau a blaenoriaethau'r asiantaeth:

Dogfen Gwybodaeth am Deitl Ddwyieithog  
Taflen Cwblhad Cofrestriad Ddwyieithog  
Canlyniadau Chwiliad o'r Map Mynegai Cymraeg  
Ymwadiad dwyieithog ar gyfer ebyst a anfonir gan Swyddfa Cymru  
Penawdau atodlenni Cymraeg

**11 E-wasanaethau**

**Adroddiad ar y gwaith  
angenrheidiol erbyn  
Gorffennaf 2010**

Bydd Business Gateway ar gael erbyn diwedd 2009 a Throsglwyddo Electronig yn 2011. Cyflwynir y ddarpariaeth Gymraeg pan ddaw e-wasanaethau i rym yn eu cyfanrwydd.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ffurfiau gwahanol trwy gais. Os bydd angen ffurf arall arnoch chi neu ar un o'ch cydweithwyr, cysylltwch ag:

Eleri Sparnon Jones  
Ffôn: 01792 355169  
Ebost: [eleri.jones@landregistry.gsi.gov.uk](mailto:eleri.jones@landregistry.gsi.gov.uk)